



Hysbysiad Statudol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dyma hysbysiad bod Rhondda Cynon Taf, ar ôl trafod gyda'r bobl briodol, yn cynnig sefydlu darpariaeth AAA yn Ysgol Garth Olwg, Y Brif Ffordd, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX, yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion. Y cynnig yw darparu 14 lle cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 (11-16 oed) sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig sylweddol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig a barn Estyn ar gael yma: <https://www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauYsgolion>

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 1 Medi 2022.

Mae 1208 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae lle i 1110 disgybl yn yr adran uwchradd a 324 yn yr adran gynradd. Bydd y niferoedd yma'n aros yr un fath unwaith i'r cynllun gael ei weithredu.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad eu cyhoeddi, hynny yw erbyn 11 Mai 2022.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

Gwynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 04/04/22

Nodyn Esboniadol

1. Gwella ansawdd addysg a chodi safonau yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu cyfle i gamu i'r byd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddosbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Mae angen mwy o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 ag Anghenion Dysgu Arbennig sylweddol yn yr Awdurdod Lleol.